

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

4/6/2019

Presennol: Rhodri Jones (Cadeirydd), Dewi Jones, (Is-gadeirydd), Huw Antur Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

Ymddiheuriadau: Lindsey Ellis-Edwards, Beryl Hughes Griffiths, Alan Jones Evans (Cynghorydd Gwynedd)

2003 Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad diffuant gyda Huw Antur Edwards a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

2004 Buddiant: Nid oedd datganiadau o fuddiant.

2005 Cofnodion: Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 7fed 2019.

2006 Materion y Clerc :

- i. Caniatâd Cynllunio i'r Paneli Gwybodaeth: diolchwyd i Alwyn E Jones am greu'r mapiau angenrheidiol ar gyfer y cais cynllunio ac i Beryl Hughes Griffiths am fynychu cyfarfod safle gyda Swyddog Parc Cenedlaethol Eryri yn ddiweddar; y dasg nesaf fydd creu gwefan i gyd-fynd â'r paneli.
- ii. Uwchraddio'r hysbysfwrdd gyferbyn â'r eglwys: mae Owain Sion wedi cytuno i wneud y gwaith
- iii. Trefnwyd bod y Cynghorwyr yn mynd ati i ddymchwel sied y fynwent oherwydd ei chyflwr gwael.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y gwaith o drwsio'r beipen ddŵr wrth y Slendai yn cael ei wneud cyn diwedd y mis; bydd y ffordd ar gau adeg y gwaith trwsio.
- v. Er gwybodaeth, cynhelir cyfarfod Bugeilio Cefn Gwlad yn y Neuadd Bentref ar 12/6/19

2007 Cyngor Gwynedd: Nid oedd Adroddiad y tro hwn.

2008 Materion Eiddo'r Cyngor: Nid oedd Adroddiad y tro hwn.

2009 Materion ariannol:

- i. Roddwyd ystyriaeth i'r Datganiadau sydd ar y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2018 – 19; ystyriwyd hefyd Cysoniad y Banc, y Datganiadau Cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/19, a chytunwyd i'r Cadeirydd eu harwyddo.
- ii. Awdurdodwyd talu yr hyn a gytunwyd iddynt eisoes – hyfforddiant Cynllunio i Gynghorydd yn Llanrwst, Dŵr Cymru ac Yswiriant y Cyngor.
- iii. Diolchwyd i Arwel Lloyd Jones am wirio'n fanwl y polisi yswiriant.

Arwyddwyd.....(Cadeirydd)(Clerc).....Dyddiad

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Rhodri Jones

2010 Materion lleol: Ystyriwyd materion gan aelodau'r Cyngor Cymuned: Darllenwyd llythyr gan Ferched y Wawr yn cyfeirio at yr angen am finiau baw cŵn, yn arbennig ar Lwybr Tegid. Cytunwyd i ofyn i'r Cyngorydd Gwynedd gysylltu efo Swyddogion am finiau, bagiau a sticeri i'w gosod ar finiau sbwriel cyffredin.

Gor-yrru. Mae'r arwyddion 40mya wedi bod o gymorth i arafu trafndiaeth ar y A494. Ond mae tueddiad i gyflymu o'r garej ac heibio stryd Y Prys a Thyddyn Felin wrth deithio i gyfeiriad Dolgellau. Mae rhai yn gweld y cyfle i oddiweddyd ac o'r herwydd mae ceir sy'n tynnu allan o Stryd Y Prys a Chapel Ainon mewn perygl mawr. Cytunodd y Cynghorwyr i ofyn am bresenoldeb camerâu Siwrne Saff ar hyd y darn hwn o'r A494. Cytunwyd hefyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd fod bysus yn aml yn gor-yrru trwy'r pentref.

2011 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd adroddiad y Cynrychiolwyr a chlywyd am dderbyn grant i hyrwyddo gwaith y Bartneriaeth.

2012 Gohebiaeth:

- i. **Gwynedd:** Derbyniwyd Raglen waith Mehefin; bydd f ffyrdd canlynol yn cael eu harwisgo: Cyffordd A494 i Bont Pennantlliw; ffordd Y Prys; ffordd Cefn Gwyn a'r Garth.
- ii. **Trafodwyd cais** am rifau cyswllt lleol wrth y di-ffib. Cytunwyd fod y cyfarwyddiadau a roddir wrth ddefnyddio'r di-ffib yn fanwl iawn, ond cytunwyd i drefnu sesiwn arall o hyfforddiant yn y dyfodol. Mae arwyddion mewn nifer o safleoedd yn y pentref yn cyfeirio pobl at leoliad y di-ffib.
- iii. **Cais** am stiwardiaid lleol wrth Bont Mwnwgl y Llyn adeg Bash Mawr Y Bala: cytunwyd i holi am fwy o fanylion.
- iv. Nodwyd derbyn Cais am enwau i banel Apêl Mynediad a Gwaharddiad disgyblion.
- v. **Ystyriwyd Cais Cynllunio** rhannol ôl-weithredol NP5/71/476 sef codi garej /sied yn Lloches Don. Cytunwyd i beidio a rhoi sylw ar y cais.
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am ganllaw Atodol Parc Cenedlaethol Eryri ar Lety Ymwelwyr.
- vii. Derbyniwyd gwybodaeth am Hyfforddiant ar lein Un Llais Cymru

Cadarnhawyd dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 2/7/18 yn y Neuadd Bentref

Amser gorffen: 8.20pm

Arwyddwyd.....(Cadeirydd)(Clerc).....Dyddiad